**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ELL 18-02(min)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 5 Rhagfyr 2002 | |
| **Amser:** | 9.00am | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd | |
| **Yn Bresennol** | **Aelodau** | **Etholaeth** |
| | Gareth Jones **(Cadeirydd)** | Conwy |
| | Jane Davidson **(Gweinidog)** | Pontypridd |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| | Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| | Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Janice Gregory | Ogwr |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Huw Lewis | Merthyr Tudful a Rhymni |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| | **Swyddogion** | |
| | Richard Davies | Cyfarwyddwr, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant |

| | |
|---|---|
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, Rheolaeth Ysgolion |
| Mike Harper | Pennaeth, Addysgu ac Arweinyddiaeth |

**Fforwm**

| | |
|---|---|
| Dr John Graystone | Prif Weithredwr |
| Caroline Lewis | Aelod o’r Bwrdd a Phennaeth Coleg Castell-nedd Port Talbot |
| David Mason | Is-Gadeirydd a Phennaeth Coleg Gwent |

**Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa**

| | |
|---|---|
| Enid Rowlands | Cadeirydd |
| Steve Martin | Prif Weithredwr |

**Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC)**

| | |
|---|---|
| Yr Athro John Andrews | Cadeirydd |
| Mal Davies | Dirprwy Gadeirydd |
| Gary Brace | Prif Weithredwr |

**Yn Ogystal**

| | |
|---|---|
| Yr Athro Stephen Heppell | Cyfarwyddwr, Ultralab, Prifysgol East Anglia |
| Martin Williams | Athro, Ysgol Gyfun St Cenydd, Caerffili |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |

Holly Pembridge Dirprwy Glerc

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o**

**fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau o’r cyhoedd.

2. Nododd y Cadeirydd ymddiheuriadau oddi wrth Alun Pugh, y Dirprwy Weinidog, a chroesawodd Rosemary Butler fel eilydd yn ail ran y cyfarfod.
3. Cydymdeimlodd y Gweinidog â theulu Stuart Cunningham-Jones a fu farw yn sgîl damwain bws ysgol ger Y Bontfaen ddydd Mawrth 3 Rhagfyr. Roedd Stuart yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Y Bontfaen. Roedd yr Arolygiaeth Gerbydau wrthi’n cynnal ymchwiliad i’r mater a byddai’n adrodd yn ôl yn fuan. Byddai Cyngor Bro Morgannwg yn hysbysu’r Gweinidog ynghylch datblygiadau ac addawodd y byddai’n cyflwyno datganiad pellach yn nes ymlaen. Diolchodd y Cadeirydd i’r Gweinidog a mynegodd ei gydymdeimlad a chydymdeimlad y Pwyllgor.
4. Gofynnodd y Cadeirydd i’r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiant yn unol â rheol sefydlog 4.5. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.
5. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai’n ymddangos o flaen Comisiwn Richard ar 12 Rhagfyr. Gofynnodd y Cadeirydd i’r Pwyllgor gymeradwyo nodyn ffeithiol a amlinellai feysydd lle roedd pwerau deddfwriaethol cyfyngedig y Cynulliad wedi amharu ar nodau polisi. Fe’i cymeradwywyd, yn amodol ar newid bychan. Nododd y Cadeirydd y byddai’n cyflwyno tystiolaeth yn seiliedig ar ei brofiad ef ond pwysleisiodd y gallai Aelodau gyflwyno eu sylwadau personol i’r Comisiwn cyn diwedd mis Chwefror.
6. Roedd y Clerc wedi mynychu seminar ynghylch asesu a chymell yn Sefydliad Nuffield yn Llundain. Lansiwyd pamffled o’r enw "Testing, Motivation and Learning" gan y Grp Diwygio Asesu yn y seminar. Archebwyd copïau ohono ar gyfer yr Aelodau. Nododd y Cadeirydd y byddai’r mater hwn yn cael ei gynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn fel rhan o adolygiad polisi Ysgol y Dyfodol.
7. Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod Huw Lewis, Alun Pugh a Jonathan Morgan wedi cyfarfod â NGfL Cymru i adolygu’r cynnydd o ran rhoi’r strategaeth TGCh ar waith. Roedd NGfL Cymru wedi cytuno i roi cyflwyniad i’r Pwyllgor ym mis Ionawr.

**Eitem 2: Y Sector Addysg Bellach: Recriwtio a Chadw Staff – Cyflwyniad gan Fforwm**

**Papur: ELL 18-02(p.1)**

**Cyllid Ychwanegol**

2.1 Croesawodd Fforwm y cyllid ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn cynyddu cyflogau o fewn y sector Addysg Bellach dros y tair blynedd nesaf, a ddylai leihau'r bwlch rhyngddynt â chyflogau athrawon ysgol a lleihau problemau recriwtio.

**Ymddeoliadau**

2.2. Cyfeiriodd y cyflwynwyr at yr ystadegau ym mharagraff 12 eu papur. Gofynnwyd i'r Aelodau sut roeddent yn cymharu â'r sefyllfa mewn ysgolion uwchradd ac fe'u hysbyswyd bod y gyfradd ymddeol uchel yn gyffredin ar draws y sector cyhoeddus. Roedd athrawon ysgol yn dueddol o ddechrau gweithio'n gynharach, yn eu hugeiniau cynnar i ganol, tra bod darlithwyr Addysg Bellach yn dechrau deng mlynedd yn hn gan amlaf ar ôl cael eu recriwtio o sectorau busnes, diwydiant ac o sectorau eraill.

**Cyflogau**

2.3 Gofynnodd yr Aelodau sut roedd cyflogau ac amodau penaethiaid adran mewn colegau Addysg Bellach yn cymharu â chyflogau penaethiaid adran mewn ysgolion. Hysbyswyd yr Aelodau fod graddfa gyflog 14 blynedd ym maes Addysg Bellach ac nad oedd y gyflog uchaf ar y raddfa yn cyfateb i gyflog uchaf athrawon.

**Pynciau lle mae Prinder**

2.4 Mynegwyd cryn bryder ynghylch y ffaith y byddai problemau cyffredinol o ran recriwtio darlithwyr mewn pynciau prin hyd yn oed yn anoddach i'w datrys mewn ardaloedd Cymraeg. Cadarnhaodd y Cyflwynwyr ei bod yn anodd iawn recriwtio a chynnal athrawon a staff gweinyddol dwyieithog. Hysbyswyd yr Aelodau fod nifer cynyddol o fyfyrwyr yn dewis dilyn cymwysterau mewn pynciau galwedigaethol, er enghraifft plymwaith ac adeiladu, sef meysydd lle ceir prinder cyffredinol o sgiliau ar draws y DU. Croesawyd hyn ond teimlai'r Aelodau y gallai hyn arwain at broblemau a achosir gan y cyflogau y bydd angen eu cynnig i ddenu ymarferwyr profiadol i ddysgu'r pynciau hyn.

**Marchnata/Codi Proffil**

2.5 Trafodwyd ymgyrch farchnata arfaethedig i godi proffil gyrfaoedd ym maes Addysg Bellach. Nododd y Cyflwynwyr nad oedd gan Fforwm gyllid digonol i gynnal ymgyrch ond byddai'n barod iawn i weithio mewn partneriaeth â'r Cynulliad ac ag ELWa – Y Cyngor Cenedlaethol.

**Canolfannau Rhagoriaeth**

2.6 Roedd gan yr Aelodau ddiddordeb mewn gwybod i ba raddau roedd colegau Addysg Bellach wedi ffurfio cysylltiadau â byd diwydiant i greu 'Canolfannau Rhagoriaeth'. Hysbysodd Fforwm y Pwyllgor fod cysylltiadau o'r fath yn cael eu datblygu.

**Trefniadau Gweithio Hyblyg**

2.7 Teimlai'r aelodau fod y gwahanol drefniadau gwaith hyblyg, gan gynnwys gweithio'n rhan-amser a rhannu swyddi, yn fantais gadarnhaol y dylid ei phwysleisio wrth recriwtio. Cytunai'r Cyflwynwyr â hyn.

**Rhagdybiaethau**

2.8 Mynegwyd cryn bryder ynghylch y ffaith fod atgofion neu ragdybiaethau ynghylch hen broblemau, fel anghydbwysedd rhwng y ddau ryw, cyflogau anghyfartal ac agwedd ymosodol rheolwyr yn bodoli o hyd a'u bod yn amharu ar y broses recriwtio yn y sector Addysg Bellach. Nododd y Cyflwynwyr fod y problemau hyn eisoes wedi'u datrys ond cydnabyddwyd bod problemau o hyd o ran anghydbwysedd rhwng y ddau ryw o ran swyddi rheoli uchel. Teimlai'r Cyflwynwyr fod tensiwn yn bodoli rhwng rheolwyr a gweithwyr o fewn y sector yn sgîl y ffaith nad oedd cyllid digonol wedi'i neilltuo iddo yn y gorffennol. Ar ôl datrys y problemau o ran cyflogau byddai'n bosibl canolbwyntio ar seilwaith y sector.

**Beichiau Biwrocrataidd**

2.9 Holodd yr Aelodau beth y gellid ei wneud i leihau'r beichiau biwrocrataidd ar ddarlithwyr Addysg Bellach. Hysbyswyd yr Aelodau fod y fforwm wedi sefydlu gweithgor ynghylch y mater a byddai'n hoffi cynnwys Y Cyngor Cenedlaethol-ELWa a'r Cynulliad Cenedlaethol yn y broses.

**Cysylltiad â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC)**

2.10 Holodd yr Aelodau a oedd cyswllt ffurfiol rhwng fforwm a CACC. Nododd y Cyflwynwyr nad oedd cyswllt ffurfiol yn bodoli ar hyn o bryd ond roedd angen mynd i'r afael â'r mater.

**Y Gweinidog**

2.11 Nododd y Gweinidog ei bod yn bwysig gwobrwyo gwahanol lwyddiannau: roedd yn rhaid i randdeiliaid roi'r un parch i bob cyfraniad. Bu i'r Gweinidog longyfarch y sector Addysg Bellach ar gasgliadau ardderchog arolwg Sefydliad Hyfforddiant Cenedlaethol Addysg Bellach (FENTO) o gymwysterau staff yng Nghymru. Bu iddi hefyd longyfarch aelodau fforwm am y nifer o Wobrau Beacon a enillwyd eleni.

2.12 Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyflwynwyr am eu papur a'r drafodaeth ddilynol.

**Eitem 3: Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa (CC-ELWa)**

**Papur: ELL 18-02(p.2)**

3.1 Rhoddodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr gyflwyniad PowerPoint yn amlinellu cynllun

corfforaethol drafft 2003-06, yr adolygiad o gynllunio a chyllid a llwyddiannau mawr eraill. Ceir cysylltiad i'r cyflwyniad PowerPoint hwn ar dudalen y Pwyllgor ar y We. Trafodwyd y materion canlynol

**Y Sector Gwirfoddol**

3.2 Roedd cryn bryder yn bodoli ynghylch y ffaith nad oedd y cynllun corfforaethol yn cyfeirio'n amlwg at swyddogaeth y sector gwirfoddol. Hysbysodd y Cyflwynwyr yr Aelodau fod y sector gwirfoddol yn rhan ganolog o'r rhwydwaith dysgu a chadarnhawyd y byddai'n chwarae rhan allweddol yn y broses o roi agenda CC-ELWa ar waith. Gwelir hyn yn fwyaf amlwg yn natblygiad cyfrifon dysgu cymunedol. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai CC-ELWa yn cynhyrchu cynllun gweithredu yn fuan.

**Ffynonellau Cyllid**

3.3 Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch y ffaith nad oedd rhai ysgolion, ac yn arbennig rhai mewn ardaloedd gwledig, yn deall y gwahanol ffynonellau cyllid presennol. Credai'r Aelodau y gallai hyn effeithio ar y ffordd yr oedd AALl yn rheoli llefydd mewn ysgolion. Cydnabyddodd y Cyflwynwyr y pryderon hon a nodwyd bod y Cyngor wedi ymgynghori'n eang ynghylch yr adolygiad o gyllid. Bwriedir ystyried ac adlewyrchu'r pryderon hyn yng nghynigion CC-ELWa i'r Gweinidog. Pwysleisiodd y Cyflwynwyr ei bod yn bwysig mai anghenion dysgwyr oedd y brif flaenoriaeth.

**Dysgu Anffurfiol**

3.4 Holodd yr Aelodau sut gellir cefnogi a dilysu blaenoriaethau o ran cyfleoedd dysgu anffurfiol. Hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd dysgu anffurfiol yn rhywbeth cyfarwydd iawn yn y DU a bod angen gwneud mwy o waith iddatblygu dealltwriaeth yn y maes hwn. Pwysleiswyd bod addysg i oedolion ac addysg barhaus yn datblygu a bod angen cymorth pellach ar eu cyfer.

**Cysylltiadau â Darparwyr Hyfforddiant**

3.5 Holwyd y Cyflwynwyr a oeddent yn cydnabod gwahaniaethau o ran pwerau rhwng partneriaid. Teimlai'r Aelodau fod morâl rhai darparwyr hyfforddiant yn isel. Hysbysodd y Cyflwynwyr y Pwyllgor yr ymgynghorwyd ag ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant yn eang a bod cynlluniau'r Cyngor wedi'u haddasu fel y bo'n briodol. Cytunwyd y gallai rhai sefydliadau wrthwynebu'r newidiadau arfaethedig.

**Cysylltiadau â Staff / Adroddiad Rawlings**

3.6 Cafwyd trafodaeth ynghylch cysylltiad CC-ELWa â'i staff. Nododd y Cyflwynwyr fod yr Agenda a oedd yn deillio o bolisïau'r Cynulliad yn heriol ond roedd CC-ELWa a Chyngor Cyllido Addysg Bellach (CCAB) yn mynd i'r afael â hi. Roedd y Cyflwynwyr yn fodlon fod y Gweinidog wedi

cymeradwyo egwyddorion llydan yr adroddiad.

**Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCAH)**

3.7 Mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch CCAH, ac yn arbennig ynghylch gwendid tybiedig o ran cynllunio mewn rhai achosion a chymhlethdod y broses gynnig. Hysbysodd y Cyflwynwyr y Pwyllgor fod cynrychiolwyr CCAH yn aelodau o bwyllgorau rhanbarthol CC-ELWa. Eu swyddogaeth oedd cynorthwyo CC-ELWa i sefydlu rhwydweithiau dysgu priodol ar draws Cymru.

**Rheolaeth Ariannol**

3.8 Roedd yr Aelodau yn bryderus nad oedd rhai darparwyr hyfforddiant wedi derbyn eu taliadau yn brydlon. Hysbysodd y Cyflwynwyr y Pwyllgor fod CC-ELWa wedi etifeddu chwe system ariannol a oedd wedi'u cysoni. Telid Ysgolion a Cholegau Addysg Bellach yn brydlon ond gallai taliadau i ddarparwyr hyfforddiant gael eu dosbarthu ddiwrnod neu ddau yn hwyr. Roedd CC-ELWa wedi cyflogi rhagor o staff er mwyn clirio'r gwaith hwyr.

**Cysylltiadau rhwng Byd Addysg a Busnes**

3.9 Holodd yr Aelodau a oedd unrhyw gasgliadau cychwynnol yn deillio o'r adolygiad o Gysylltiadau rhwng Byd Addysg a Busnes. Hysbysodd y Cyflwynwyr y Pwyllgor y byddent yn cyhoeddi adroddiad ar y mater yn y Flwyddyn Newydd a byddai'r Aelodau yn derbyn copi ohono.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Bydd Cyngor Cenedlaethol-ELWa yn darparu copïau o adroddiad ar yr adolygiad o gysylltiadau rhwng byd addysg a busnes yn y flwyddyn newydd.

**Eitem Pedwar: Adolygu Polisi: Ysgol y Dyfodol – Cyflwyniadau**

**Papur: ELL 18-02(p.3) CACC**

4.1 Clywodd y Pwyllgor gyflwyniadau llafar gan CAAC ynghylch swyddogaeth athrawon. Cyfeiriodd y Cyflwynwyr at eu papur.

4.2 Mynegodd Yr Athro Stephen Heppell a Martin Williams eu barn ynghylch swyddogaeth TGCh gan ddefnyddio cyflwyniadau PowerPoint. Bu i'r Cadeirydd longyfarch Martin Williams ar ennill gwobr athro uwchradd y flwyddyn mewn seremoni wobrwyo ddiweddar i athrawon.

4.3 Ceir crynodeb o'r themâu isod:

**Addysgu**

- Torri cylch amddifadedd addysgol – gall rhieni sydd ag agwedd negyddol ynghylch byd addysg drosglwyddo eu barn negyddol i'w plant;
- Mae angen i ysgolion chwarae rhan ganolog ym mywyd cymunedau;
- Gweithgaredd craidd athrawon yw asesu anghenion dysgwyr;
- Mae angen i athrawon chwarae rhan rheolwyr dysgu;
- Mae angen i athrawon feithrin sgiliau rheolwyr adnoddau a chaffael;
- Mae angen ymddiried yn fwy ym marn broffesiynol athrawon;
- Mae rhai athrawon yn rheolwyr oedolion eraill (e.e. mewn ysgolion cymunedol);
- Mae Athrawon yn ddysgwyr yn ogystal ac mae datblygiad proffesiynol parhaus yn bwysig
- Trwy wneud hyn bydd yn bosibl coffi proffil swyddi ym myd addysg.

**Y Cwricwlwm**

- Yr angen i arbrofi â newidiadau sylweddol i'r cwricwlwm a'u hasesu dros gyfnod hir o amser cyn eu cyflwyno;
- Yr angen i adolygu dulliau a dibenion asesu tra'n adolygu'r cwricwlwm;
- Gwersi Hanes TGAU : tystiolaeth a dehongliad – disgyblion yn cynllunio ac yn arwain gwersi a rhannu syniadau y tu allan i oriau ysgol.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

- Defnyddio posibiliadau presennol TGCh ar gyfer ystafell ddosbarth y dyfodol;
- Yr angen i fod yn greadigol – dylai disgyblion chwarae rhan flaenllaw mewn prosesau creadigol a'u harwain;
- TGCh fel cyfrwng i gynorthwyo disgyblion ag anghenion neu ddoniau arbennig, er lles dysgwyr eraill;
- TGCh fel cyffrwng i rannu gwaith a llwyddiannau disgyblion â rhieni a dysgwyr eraill yn y gymuned;
- TGCh fel cyfrwng i godi hunan-hyder disgyblion a statws yr ysgol o fewn ei chymuned leol;
- Cyflawni Datblygiad Proffesiynol Parhaus â chymorth TGCh – proses ryngweithiol lle gall athrawon rannu eu profiadau ac elwa o brofiadau pobl eraill (rhai da a drwg);
- Defnyddio gwefannau i hysbysu rhieni ynghylch cynlluniau gwaith, byrddau arholi a therfynau amser gwaith cwrs;
- Byrddau gwyn rhyngweithiol: gellir creu archif o'r gwaith a'i anfon at ysgolion eraill;
- Defnyddio cerddoriaeth a fideos i wneud gwersi yn fwy diddorol ac i ysgogi syniadau creadigol, gan annog gwahanol syniadau;
- Cynllun ystafelloedd dosbarth – dulliau o annog gwaith grp a hefyd darparu lle ac amgylchedd diogel i synfyfyrio'n dawel.

4.4 Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyflwynwyr am eu cyfraniad diddorol ac am gyflwyno syniadau newydd mewn perthynas â'r adolygiad polisi.

**Eitem Pump: Cynnig ac Addasiadau mewn perthynas â Ffïoedd Prifysgol Ychwanegol**

**Papur: ELL 18-02(p.4)**

5.1 Trafododd y Pwyllgor y cynnig a'r addasiadau a amlinellir yn y papur.

5.2 Yn dilyn trafodaeth cytunodd Helen Mary Jones i dynnu ei chynnig yn ôl cyn belled â bod y Gweinidog yn cytuno i gyflwyno papur ynghylch cymorth i fyfyrwyr mor fuan â phosibl yn Nhymor y Gwanwyn.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Bydd y Gweinidog yn darparu papur ynghylch cymorth i fyfyrwyr mor fuan â phosibl yn Nhymor y Gwanwyn.

**Eitem Chwech: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol i'w Cadarnhau**

**Papur: ELL 17-02(mins)**

6.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2002.

**Papur i'w Nodi: Tystiolaeth y Cadeirydd i Gomisiwn Richard**

**Papur: ELL 18-02(p.5)**

Nododd y Pwyllgor y papur.